Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn


**Cylchlythyr yr Ofalaeth**

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 11 Gwanwyn 2010

*Cododd Iesu!*





*Nos eu trallod aeth yn ddydd*

Annwyl ffrindiau,

Tair llythyren yn unig sydd i'r gair **"pam"**, ond o ran ei bwysigrwydd mae'n air aruthrol fawr. Fel arfer, ei osod ar gychwyn cwestiwn a wnawn er mwyn ceisio eglurhad am rywbeth neu'i gilydd. **Pam** mae eira'n wyn? **Pam** mae'r gath yn hoffi pysgod, ond nid yw'n fodlon gwlychu'i throed? Go brin mai'r ffŵl yn unig sydd yn gofyn cwestiynau o'r fath oherwydd nid hawdd yw cael hyd i atebion weithiau, yn arbennig yng nghyswllt rhai o gwestiynau mawr bywyd. **Pam** wnaethost Ti, Dduw, greu y byd yn y lle cyntaf? **Pam** na wnei Di ddangos dy hun fel y daw pawb i gredu ynot Ti? **Pam** wyt Ti'n caniatáu cymaint o anghyfiawnder a dioddefaint yn y byd? **Pam ...? Pam ...?**

Roedd hi'n eiliad dywyll pan ofynnodd Iesu'r cwestiwn, "Fy Nuw, fy Nuw, **pam** yr wyt wedi fy ngadael?" (Marc 15:34). Dyma "Lef y Llwyradawedig" (*The Cry of Dereliction*), sy'n awgrymu bod Iesu ei hun wedi disgyn i ddyfnder isaf y profiad o ddioddefaint dynol nes teimlo bod Duw wedi cefnu arno a'i adael yn ddiamddiffyn. Diau y cawsom i gyd brofiadau tebyg mewn bywyd. Rai blynyddoedd yn ôl, pan oeddwn yn byw yng Nghaerfyrddin, roedd gen i gymydog a oedd ymhell yn ei nawdegau, ond a oedd wedi'i adael ar ei ben ei hun yn dilyn marwolaeth ei briod annwyl. Byddwn yn galw i'w weld orau y medrwn gan geisio codi ei galon, ond ei gwestiwn i mi bron yn ddi-ffael fyddai hyn: "**Pam** mae hyn wedi digwydd? **Pam** mae Duw wedi fy ngadael ar fy mhen fy hun?" Nid hawdd oedd dod o hyd i ateb a fyddai'n ei gysuro a'r gorau y medrwn ei wneud, fel y gwneuthum droeon yn ystod fy ngweinidogaeth, oedd sôn fod Iesu wedi cael ei hun yn yr un cyflwr dirdynnol ar groes Calfaria.

Nid yw'r hyn a ddigwyddodd ar Ddydd Gwener y Groglith yn cynnig ateb sydyn i'n cwestiynau dwys, oherwydd wrth wynebu'r groes fe wynebwn ein hofnau mwyaf – ofn diffyg ystyr, ofn methiant, ofn dioddefaint, ofn marwolaeth. Yr ydym yn dwyn i gof fel y bu i'r Iddewon ddwyn Iesu o Nasareth gerbron y Sanhedrin, ei gyhuddo ar gam, a'i lusgo ymaith i'w ddienyddio mewn ffordd gwbl waradwyddus a chreulon. **Pam** y bu i Dduw ganiatáu y fath beth? **Pam** gadael i bechod dyn ennill y dydd?

Ond nid Dydd Gwener y Groglith biau’r gair olaf wrth gwrs. Pe bai hynny’n wir, nyni Gristnogion fyddai’r bobl mwyaf digalon a thruenus yn y byd. Rhan yn unig o’r Stori Fawr yw Gwener y Grog. Rhaid edrych ar y Groes bob amser yng ngoleuni’r Trydydd Dydd. Rhaid mynd heibio’r “gwyrddlas fryn” at “y bedd gwag”. Rhaid dod at y “bore teg a hyfryd” wedi “stormus ddu brynhawn”. Felly, beth am ofyn cwestiwn arall? Nid **pam** y dioddefaint, nid **pam** y farwolaeth, ond **pam** y fuddugoliaeth? **Pam** y llawenydd? **Pam** y bu i wŷr a gwragedd a holai gwestiynau arswydus ynglŷn â marwolaeth eu hathro a’u cyfaill, weld yn y bedd gwag rai dyddiau yn ddiweddarach, atebion a oedd yn ddigon grymus i wneud iddynt fynd allan i geisio ennill y byd i Grist? **Pam** y bu i’r Arglwydd Iesu ar y nos Sul ganlynol roi gobaith, tangnefedd a llawenydd yng nghalonnau Ei ddisgyblion a’u galluogi maes o law i fynd ati i sefydlu’r Eglwys? **Pam** yr Eglwys yn wir? **Pam** mae pobl heddiw yn datgan llawenydd ar Sul y Pasg wedi trallod Gwener y Groglith, ac yn gobeithio mewn atgyfodiad wedi marwolaeth?

Oes, mae gennym sawl cwestiwn y gellir eu gofyn i Dduw ynglŷn â phethau gwael y byd, ond y mae gennym gwestiynau ynglŷn â’r pethau da hefyd. **Pam** y llawenydd, Arglwydd? **Pam** y gobaith bod cloeon angau wedi’u dryllio? **Pam** y bodlonrwydd o weld yr hen arw groes yn arwydd o gariad ac nid o gasineb? Os gwelwn bechod a chasineb dyn ar ei waethaf yn nigwyddiadau Gwener y Groglith, gwelwn hefyd gariad Duw ar ei orau fore’r Trydydd Dydd yn codi ein heneidiau “uwch holl bethau gwael y llawr”.

> Gwawr wedi hirnos, cân wedi loes,
> Nerth wedi llesgedd, coron ’r ôl croes;
> Chwerw dry’n felys, nos fydd yn ddydd,
> Cartref ’r ôl crwydro, wylo ni bydd.

(Frances R. Havergal, cyf. J. D. Vernon Lewis)

Ar bob cyfrif, daliwn i ofyn yr hen gwestiwn **“pam?”** Ond bydd yr ateb yn aml y tu hwnt i’n deall a’n rhesymeg – yr un fath mewn tristwch ar brynhawn y Grog, yr un fath mewn llawenydd ar fore’r Pasg!

Pasg hapus i chi i gyd.


Yr eiddoch yng Nghrist

Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant

Roedd Mair Magdalen yn drist iawn pan welodd fod y bedd yn wag. Roedd hi'n meddwl bod rhywun wedi dwyn corff Iesu.

Chwilia am 13 glöyn byw wedi eu cuddio yn y llun, ac yna lliwia'r llun.



Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **30 Ebrill**. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.

Llongyfarchiadau i **Glesni Morgan, y Garn,** enillydd y gystadleuaeth.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 2 Ebrill | Oedfa gymun bore'r Groglith<br>Capel Seion am 10 o'r gloch |
| 4 Ebrill | Oedfa gymun ar Sul y Pasg<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 17 Ebrill | Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Aberteifi<br>yng Nghapel y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Anerchir gan Mrs Menna Green, y Bala |
| 21 Ebrill | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Woodstock am 2 o'r gloch |
| 9 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>yng Nghapel y Garn am 10 a 5.30 o'r gloch<br><br>Oedfa deuluol yn y bore:<br>dan arweiniad Dr Owain Edwards, Coleg y Bala<br>Arweinydd Cymanfa'r Oedolion: Mrs Carol Davies |
| 10 Mai | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 18 Mai | Sasiwn Genhadol y Chwiorydd yn Nhyddewi |
| 20 Mehefin | Gŵyl yr Ysgolion Sul yng nghwmni Euros Lewis<br>Thema: 'Newyddion Da'<br>Canolfan y Morlan, Aberystwyth<br>2.30 tan 4 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

*Dathlu ail ddyfodiad Crist*

Mae'r Iesu'n cyrraedd ar y bws
   Ar fore'r trydydd dydd,
Deuluoedd trist, dewch mas o'r tai
   A llawenhewch yn rhydd.

A chanu wrth ei ddilyn Ef
   I'r farchnad fawr a'r ffair;
Nac ofnwch arddel wrth y byd
   Y wyrth o gariad Mair.

Ewch heibio i'r capeli gwag
   A chwyddo nodau'r gân
Nes atsain muriau cysur ddoe,
   Mae Crist yn cerdded mlân.

Ni ddaeth i chwalu silffoedd ffals,
   Na dymchwel byrddau chwaith
Ond cynnig swm o gariad pur
   I'r enaid ar y daith.

Deuluoedd llon, rhowch iddo le
   Ar eich aelwydydd llawn,
Rhag iddo neidio ar y bws
   A hithau'n dri'r prynhawn.

*Vernon Jones*

***Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth***



Er mwyn ceisio rhoi cyfle i fwy o bobl fynychu'r Astudiaeth Feiblaidd, bydd yn cael ei chynnal yn y prynhawn yn ogystal â gyda'r nos yn ystod y misoedd nesaf, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 13 Ebrill | Y Garn | 7 o'r gloch |
| 20 Ebrill | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 27 Ebrill | Rehoboth | 7 o'r gloch |
| 4 Mai | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 11 Mai | Capel Seion | 7 o'r gloch |
| 18 Mai | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 25 Mai | Y Garn | 7 o'r gloch |
| | Hanner tymor | |
| 8 Mehefin | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 15 Mehefin | Rehoboth | 7 o'r gloch |
| 22 Mehefin | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 29 Mehefin | Capel Seion | 7 o'r gloch |
| 6 Gorffennaf | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 13 Gorffennaf | Y Garn | 7 o'r gloch |

Noder y bydd y wers a gyflwynir yn y prynhawn yn y Garn yn cael ei hailgyflwyno yr wythnos ganlynol yn y nos.




***Y plant a'r ieuenctid yn dilyn***
***Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth***

*Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth*



Hyfryd oedd gweld cynulleidfa niferus wedi dod ynghyd o holl eglwysi'r ofalaeth i Gapel y Garn bore Sul, 28 Chwefror, i wasanaeth arbennig a drefnwyd gan ein Gweinidog i ddathlu Gŵyl Ddewi. Mwynhawyd cyfraniadau amrywiol gan blant ysgol Sul y Garn, yn ddarlleniadau, gweddïau a chyflwyniad dramatig. Yna, cafwyd neges bwrpasol gan ein Gweinidog ar y thema: 'Gwnewch y pethau bychain'.

Casglwyd £105 tuag at Bapur Sain y Deillion yng Ngheredigion.

# Os Mêts




Mewn cyfarfod agored dan nawdd Os Mêts, nos Iau, 11 Chwefor, bu Wynford Ellis Owen yn sgwrsio am ei brofiadau a'i waith fel Cyfarwyddwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Cyfeiriodd yn arbennig at y project i sefydlu'r Ystafell Fyw yng Nghaerdydd, sef canolfan driniaeth fydd yn cynnig gofal dyddiol dwyieithog i rai sy'n cael anhawster gydag alcohol neu gyffuriau eraill.

*Gweithgareddau eraill*
Trefnwyd nifer o weithgareddau yn ystod tymor y gwanwyn a thra phrin oedd y nifer ar yr adegau y cafwyd sesiynau o ddiddordeb. Cafwyd cyfle i 'ddadorchuddio' y bwrdd tennis bwrdd newydd, a syndod oedd gweld pa mor heini oedd yr hynafgwyr hefyd!!

Trefnwyd noson arbennig i ddathlu diwedd y tymor yng nghwmni'r grŵp 'Society Profiad' sy'n prysur wneud enwau iddynt eu hunain fel grŵp hip-hop Cristnogol.

Ar 25 Mawrth bu cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithredol ac Ymgynghorol a gwerthfawrogir yr holl gefnogaeth a chymwynasau sy'n deillio o aelodau'r Pwyllgor.

## Seion, Capel Seion

### Gwasanaethau

Cynhaliwyd gwasanaethau ychydig yn wahanol i'r arferol yn ystod y ddeufis diwethaf. Cynhaliwyd oedfa brynhawn Sul gan aelodau hŷn yr Ysgol Sul yng nghartref gofal Tregerddan. Derbyniwyd croeso cynnes yno gan y trigolion a chyfeillion y cartref. Yn bresennol roedd Rhys Tom Griffiths o Aberaeron a ddathlodd ei ganfed pen-blwydd yn y cartref yn ystod yr wythnos ganlynol a phwrpasol iawn oedd i'w nith, Magdalen Davies, Gwelfro, ddarllen barddoniaeth o'i waith fel rhan o'r gwasanaeth.

Cynhaliwyd oedfa Weddi Byd-eang y Chwiorydd yn Seion gyda Susan Lloyd Hughes yn arwain ac Ina Tudno Williams yn cyflwyno anerchiad ar sail bywyd a gwaith chwiorydd y Camerŵn a oedd yn gyfrifol eleni am lunio'r gwasaneth ar thema adnod olaf Salm 150: 'Bydded i bawb foliannu'r Arglwydd'.

O dan nawdd yr Ysgol Sul cynhaliwyd Oedfa Deuluol a'r holl aelodau'n cymryd rhan. Y thema oedd Masnach Deg. Paratowyd y gwasanaeth gan y Parch Meima Morse. Hi hefyd a draddododd yr anerchiad gan arwain trafodaeth yn ystod yr oedfa i greu ymwybyddiaeth newydd o'r angen i gefnogi nwyddau wedi eu tyfu a'u gwerthu er budd a lles unigolion a chymunedau anghenus y byd.

### Llongyfarchiadau

Croeso i dri bachgen bach a aned i deuluoedd Seion, sef Morgan Jac i Angharad a Jonathan Lewis, Capel Bangor; Isaac Ali i Rachel a Cam Rahman, Aberystwyth; a Celt Ceiriog i Rhian Dafydd a David Davies, Aberaeron. Mae Morgan yn ŵyr i Morwenna ac Ieuan Rees, Bwlchmawr, Isaac yn ŵyr i Dr Alan a Karen Axford, Nant y Benglog, a Celt yn ŵyr i Magdalen Davies, Gwelfro, ac yn frawd bach i Swyn ac Eos.

### Gwaith cynnal a chadw

Braf yw gallu cofnodi bod llawer o waith wedi ei orffen yn raenus iawn ar Seion yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd angen diogelu'r ffenestr liw hardd sydd ar flaen y capel, ail-doi darnau o'r to, adnewyddu'r gwaith pren yn y ffenestri a'r drysau, paentio'r wal a'r drysau a thwtio tu allan gan osod wyneb newydd o flaen y capel ac ar y fynedfa. Diolch yn fawr i bawb a fu'n cynllunio ond yn arbennig i'r Trysorydd, Mr William Davies, a osododd stamp arbenigedd a phrofiad arbennig ar y dasg enfawr o arolygu a llywio'r holl waith.

***Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion***

***Dydd Sul, 9 Mai 2010***

***yng Nghapel y Garn, Bow Street***
***am 10 a 5.30 o'r gloch***

***Arweinydd: Mrs Carol Davies***

***Trefn y Rihyrsals***

Nos Fercher, 31 Mawrth: Bethel, Tal-y-bont

Nos Fercher, 14 Ebrill: Morfa, Aberystwyth

Nos Fercher, 21 Ebrill: Horeb, Penrhyn-coch

Nos Fercher, 28 Ebrill: Bethel, Aberystwyth

Nos Fercher, 5 Mai: Capel y Garn, Bow Street

Bydd pob rihyrsal yn dechrau am 7 o'r gloch

*Dewch i gefnogi*

***Cyfeiriadau e-bost***

O bryd i'w gilydd byddaf yn anfon neges ar ran y Bugail, swyddogion yr ofalaeth neu swyddogion y Garn drwy gyfrwng e-bost, sy'n ddull hwylus ac effeithiol o gyrraedd nifer o bobl yr un pryd.

Mae gennyf bellach restr o nifer o'r aelodau sy'n defnyddio'r cyfrwng hwn, a hoffwn estyn gwahoddiad i unrhyw un nad yw ei (h)enw ar fy rhestr ond a fyddai'n dymuno ei ychwanegu i gysylltu â mi drwy anfon neges at: marian_hughes@btinternet.com

Diolch am eich cydweithrediad,
Marian B Hughes

**Ebrill**

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

2 *Gwener y Groglith*
Oedfa gymun yr ofalaeth
dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel Seion am 10 o'r gloch



**4** *Sul y Pasg*
Oedfa gymun yr ofalaeth
dan arweiniad y Bugail
yn y Garn am 10 o'r gloch



7 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Blodau'r Beibl' – Mrs Ann Davies, Goginan

**11** Parch Elfed ap Nefydd Roberts

17 Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Dosbarth Gogledd Aberteifi
yng Nghapel y Garn am 2.30 o'r gloch
Anerchir gan Mrs Menna Green, y Bala

**18** Bugail
Noddfa yn uno yn y Garn

**25** Parch J E Wynne Davies

Llongyfarchiadau:

i Erddyn a Gwenda James ar ddod yn dad-cu a mam-gu i Besi, merch Llŷr a Rhian, a aned ar 2 Rhagfyr, a chwaer i Lleucu;

i Alun a Siân Jones, Caergywydd, ar enedigaeth merch fach, Hanna, ar 28 Rhagfyr, chwaer i William a Gerwyn, a’r wyres gyntaf i Ray Evans, Maes Ceiro;

i Bryn a Meinir Roberts ar ddod yn daid a nain i Iestyn Bryn, mab bach Iwan a Nerys, a aned ar 14 Mawrth.



Llew Ifan gyda’i dad a’i fam, Owain a Lowri Schiavone,
a’r Gweinidog yn dilyn y gwasanaeth bedydd,
bore Sul, 17 Ionawr 2010

## Mai

*Blaenor y Mis: D Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**2** Rhodri Glyn

**9** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>
yng Nghapel y Garn<br>
am 10 a 5.30 o'r gloch<br>
Gwasanaeth teuluol yn y bore:<br>
dan arweiniad Dr Owain Edwards, Coleg y Bala<br>
Cymanfa'r oedolion yn yr hwyr:<br>
dan arweiniad Mrs Carol Davies, Henllan

10 Pwyllgor Swyddion yr Ofalaeth<br>
yn y Garn am 7 o'r gloch

**16** Oedfa Cymorth Cristnogol<br>
am **10.30** o'r gloch<br>
dan arweiniad y Bugail<br>
Cinio Bara a Chaws yn dilyn y gwasanaeth

Oedfa gymun am 5 o'r gloch<br>
Noddfa yn ymuno yn y Garn

**23** *Sulgwyn*<br>
Steffan Jones



**30** Parch Adrian P Williams

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / Elystan Morgan*

**6** Parch M J Morris

**13** Parch Ifan Mason Davies
Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr yn y Garn

**20** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

Gŵyl Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion
yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth, 2.30–4 p.m.

**27** Parch Richard H Lewis

Gŵyl yr ysgolion Sul

yng nghwmni Euros Lewis a'i ffrindiau

pnawn Sul, 20 Mehefin

2.30–4 o'r gloch

Thema: 'Newyddion Da'

Croeso cynnes i bawb

### *Grŵp Help Llaw y Garn*

Ers chwe blynedd bellach, rydym wedi anfon cymorth yn gyson i helpu'r anghenus yn Lithuania. Ein dolen gyswllt yw Urdd y Carmeliaid yn Nolgellau a'r Cwfaint yn Pastuva. Y lleianod yno sy'n derbyn ac yn dosbarthu'r nwyddau i'r tlodion.

Mae'n debyg fod ein llwyth diwethaf o ddillad cynnes a theganau wedi ei ddosbarthu mewn Sanatorium ger y Cwfaint, lle mae rhwng cant a hanner a deugant o blant o bob oed yn dioddef o'r diciáu. Roedd y tymheredd ar y pryd tua –32 ˚C. Mae'r cyfraniadau bob amser yn cael eu cydnabod gyda diolch twymgalon.

Fe aeth llwyth arall i Ddolgellau ddiwedd mis Chwefror. Diolch o galon am bob cyfraniad at y gwaith, ac yn arbennig am waith llaw y rhai sy'n gwau.

*Bethan Jones*

### *Diwrnod Gweddi Chwiorydd y Byd*

Y thema eleni oedd adnod olaf y Salm olaf: 'Bydded i bopeth byw foliannu'r Arglwydd' – yn yr hen gyfieithiad, 'Pob perchen anadl, molianned yr Arglwydd'. Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Eglwysi Camerŵn ac fe'i cynhaliwyd yn y Garn brynhawn Gwener, 5 Mawrth. Ymunodd chwiorydd y Garn, Noddfa ac Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn gyda chwiorydd ar draws y byd mewn gweddi a myfyrdod. Cymerwyd rhan gan chwiorydd y tair eglwys a chafwyd anerchiad pwrpasol ar y thema gan y Parchedig Judith Morris.

### *Cymdeithas y Borth*

Ar noson oer ganol Chwefror hyfryd oedd cael cyfarfod yn ymwneud â blodau – blodau arbennig iawn: blodau'r Beibl. Aethpwyd â ni drwy'r Beibl lle y ceir cyfeiriad at flodau, gan eu henwi yn Gymraeg, Saesneg a Lladin. Yr arbenbenigwraig oedd Ann Mason Davies a chafwyd ganddi gyflwyniad cwbl unigryw gan ei bod yn feistres ar y pwnc, a llawenydd yr Efengyl yn byrlymu drwy'r cyflwyniad. Llywyddwyd y noson gan y Parch. Wyn Morris, Llywydd y Gymdeithas, a mwynhawyd sgwrs a phaned gan ddod â noson hynod o ddiddorol ac addysgiadol i ben.

## *Apêl Argyfwng – Daeargryn Haiti*







Y Br  Eddie Jenkins
yn ei wisg gweinydd
yn cynnig
gwasanaeth arbennig
yn y bore coffi

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yn festri'r Garn bore Sadwrn, 13 Chwefror, i godi arian at Apêl Argyfwng Daeargryn Haiti. Trefnwyd y bore gan y Swyddogion ac erbyn hyn trosglwyddwyd swm £1,380 i'r gronfa apêl, drwy Gymorth Cristnogol.

Mae'r cyfanswm yn cynnwys cyfraniadau o £100 gan Gapel Babell, casgliad o £135 o Gapel Madog, a chyfraniad o £50 gan Gapel Nasareth – diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

## *Gair o Brofiad, gan Alwen Griffiths*

Yn ôl fy ngalwedigaeth nyrs oeddwn, er fy mod wedi ymddeol bellach ers rhai blynyddoedd. Daeth llythyr drwy'r post yn Hydref 1992 – galwad i mi fel pawb arall i gael *mamography*. Ond daeth y canlyniadau yn ôl gan ddangos fod cancr arnaf. Dewisais gael triniaeth. Yn ystod fy amser fel nyrs, roeddwn wedi gweld llawer yn gwneud yn dda ar ôl cael triniaeth, a chofiwch fod y triniaethau'n sicr wedi newid a gwella eto erbyn hyn.

Er fod y salwch yn beryglus iawn, ni chwestiynais Dduw na gofyn, 'Pam fi?' Ac ni throis fy nghefn ar fy ffydd. Cefais y driniaeth ac ychydig o *chemotherapy* 16 mlynedd yn ôl, ac yna euthum yn ôl i weithio yn y ward orthopedig yn Ysbyty Bronglais gan deimlo'n iawn – Diolch Iddo!

Wedyn, rhyw saith mlynedd yn ôl, cefais hi braidd yn anodd i benlinio a chodi. Meddyliais fod llawer o 'wear and tear' ar y pengliniau o ganlyniad i waith trwm am flynyddoedd. Dywedais hefyd wrth fy arbenigwr, Dr Alan Axford, fod poen gennyf yng ngwaelod y cefn. Euthum i gael *X-ray* ar yr esgyrn yn Ysbyty Singleton, Abertawe. Ymateb yr arbenigwr cyn yr *X-ray* oedd, 'But you're so active, Alwen!' Daeth y canlyniadau yn ôl. Roedd *bone metastasis* arnaf, sef cancr yr esgyrn. Er y newydd yma, parhawn i gael fy nghynnal fel o'r blaen – Diolch Iddo! (Salm 46:1)

Cefais *chemotherapy* trwm iawn i ddelio â'r celloedd cancr yn y corff. Roedd y Beibl a gweddïau pobl wedi bod yn anhygoel – y tonic gorau yn y byd. Cefais y driniaeth am chwe mis, a gorffen yn Ionawr 2009 – bu'n gyfnod caled iawn.

Tybiwn fod rhywbeth o'i le yng ngwaelod y pelfis. Rhoddwyd *X-ray* arall i mi, ac yn dilyn hyn, cefais radiotherapi a chyffur at y boen. Daeth y driniaeth i ben, ond doeddwn i ddim yn teimlo fod y goes fel y dylai fod, ac roeddwn yn iawn! Darganfuwyd bod yr asgwrn wedi chwalu yn y pelfis a bu raid aros yn y gwely dros gyfnod y Nadolig. Nid oeddwn yn malio rhyw lawer gan fy mod yn byw ar fy mhen fy hun, yn dilyn marwolaeth fy nhad a'm mam ddeng mlynedd yn ôl, o fewn chwe wythnos i'w gilydd.

Yn Hydref 2009 cefais CT sgan arall, a ddangosodd fod sbec bach o'r cancr wedi mynd i'r afu a'r ysgyfaint. Ac ar hyn o bryd (Rhagfyr 2009) rwyf yng nghanol 'chemo' wythnosol arall. Bydd hyn ym mynd ymlaen am dri mis. Byddaf yn cael sgan ym mis Ionawr 2010. Erbyn hynny byddaf wedi cael naw mis o 'chemo' a llawer o brofion gwaed a thrallwysiad gwaed, ac efallai y bydd mwy eto i ddod.

Fe aeth fy ngwallt coch bron i gyd, a bu raid imi wisgo gwallt ffug a het. Daeth y gwallt yn ôl ond fe fyddaf yn ei golli eto. Er hyn, nid ydwyf wedi colli fy hyder yn Nuw.

Nid yw'r bywyd Cristnogol yn hawdd, ond mae Duw gyda ni drwy bopeth. Dywedir hynny'n glir iawn yn y Beibl ac mae fy mhrofiad i wedi dangos hynny hefyd. Ond fel mae'n dweud yn Galatiaid 5:22, 'Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth.' Mae angen cariad pan oeddwn wedi blino ac yn y gwely, a goddefgarwch ac addfwynder.

Drwy'r salwch hwn, rwyf wedi cael fy nghynnal a'm harwain. Arferwn fynd i'r capel o'm plentyndod, ond drwy'r salwch yma gwnaeth Duw fi'n berson sydd o ddifrif yn dibynnu arno Ef. Mae gweinidogaeth a chymdeithas Cristnogion wedi codi fy nghalon bob tro pan oeddynt yn ymweld â mi. Braf hefyd oedd cael cwmni ffrindiau yma i gael astudiaeth Feiblaidd gan arweiniad y Parch Wyn Morris, fy ngweinidog. Rwy'n dal yn eithriadol o ddiolchgar i bawb. Rwyf wedi dysgu fod popeth yn digwydd am reswm ond Duw yw'r un sy'n gwybod. Gweddïaf y bydd Duw yn rhoi nerth i mi ac y bydd yr Ysbryd Glân yn fy nghynnal.

Diolch i chi i gyd am eich gweddïau.

**Gair gan y Bugail**:
Diolchwn i Alwen hithau am rannu â ni ei ffydd gadarn, er gwaethaf y clefyd creulon a ddaeth i'w phoenydio. Bydd Alwen yn aml yn dyfynnu geiriau'r Hollalluog wrth yr Apostol Paul: 'Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth.' (2 Corinthiaid 12:9) Estynnwn ein dymuniadau gorau iddi yn Cerbyty (Coach House), Cwmcynfelin, a phahawn i gofio amdani yn ein gweddïau.

***Llyfr Gwasanaethau (gol. Glyn Tudwal Jones a John Tudno Williams)***

Dechrau'r flwyddyn cyhoeddodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ei *Llyfr Gwasanaethau* newydd. Mae'n disodli llyfr tebyg a gyhoeddwyd yn 1991. Teimlwyd bod angen llyfr newydd am nifer o resymau. Erbyn hyn cyhoeddwyd Argraffiad Diwygiedig o'r Beibl Cymraeg Newydd a hwnnw wedi'i addasu i gynnwys iaith gynhwysol: e.e. pan mae Paul yn annerch aelodau'r eglwys yng Nghorinth, nid fel 'brodyr' y gwna hynny bellach ond fel 'cyfeillion'.Yn ogystal â hyn roedd angen ystwytho'r mynegiant mewn rhannau o'r gwasanaethau a oedd yn dal i gyfleu argraff eithaf henffasiwn.

Ar y cyfan mae'r Gwasanaethau Bedydd ac Angladdol yn dilyn cynllun y llyfr blaenorol, ond awgrymir trefn wahanol ar gyfer y Gwasanaeth Priodas, lle ceir adran o ddiolchgarwch ar y dechrau cyn yr eir at y Cyfamod Priodasol ei hun. Wrth gwrs, does dim rhaid i weinidog ddilyn pob trefn gwasanaeth yn slafaidd – nid Eglwyswyr sydd wedi'u clymu wrth eiriad *Y Llyfr Gweddi Cyffredin* ydym ni, wedi'r cyfan. Fe'u cyflwynir, yn hytrach, fel arweiniad ac fel awgrymiadau i'r sawl sy'n gwasanaethu. Hwylustod pellach i'r cyfryw rai yw'r ffaith bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg wedi'u hargraffu gyferbyn â'i gilydd. Bydd hyn yn gaffaeliad mawr ar yr achlysuron mynych hynny pryd y mae'n ofynnol troi o'r naill iaith i'r llall yn ystod gwasanaethau.

Mae'r gyfrol hon wedi'i bwriadu nid yn unig i weinidogion, ond gall fod o ddefnydd arbennig i aelodau eraill yr eglwys hefyd. Gosodwyd Calendr a Llithiadur ar ei dechrau; yn yr hen lyfr fe'u ceid ar y terfyn. O'i osod ar y cychwyn fe'n hatgoffir o le canolog y Beibl ym mywyd ac yn addoliad y Protestant a rhydd arweiniad diogel i bwy bynnag sydd am drefnu neu am gymryd rhan mewn addoliad cyhoeddus, neu, efallai, sy'n dewis darllen yr Ysgrythur yn gyson o Sul i Sul ac yn ystod y Gwyliau Cristnogol. Yn ychwanegol ceir nifer dda o Frawddegau a Gweddïau Agoriadol ar gyfer gwasanaethau cyffredin, ar gyfer Gwyliau'r Flwyddyn Gristnogol ac ar gyfer Suliau a dyddiau arbennig megis Gŵyl Ddewi, Sul y Fam a Gŵyl Diolchgarwch.

Gwelir felly fod llawer o deunydd yma ar gyfer aelodau'r eglwys heblaw gweinidogion. Mae'r cyfan wedi'i gynnwys mewn cyfrol 400 tudalen wedi'i rhwymo'n hardd. Eisoes anfonwyd copi i bob eglwys Bresbyteraidd yn rhad ac am ddim. Ei phris i bwy bynnag a'i myn yw £20 a gellir ei harchebu o Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Yn ychwanegol darperir copïau o'r Gwasanaethau Cymun am 30c yr un ar gyfer eu defnyddio gan ein cynulleidfaoedd.

*John Tudno Williams*

## *'Feibl Gwerthfawr …'*

Ar ôl cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd ym 1988 a'r Argraffiad Diwygiedig yn 2004, clywais ambell un o blith yr efengyleiddwyr cul yn gofyn pam fod angen newid y Beibl fu gyda ni am 400 mlynedd. Mae'r cwestiwn yn f'atgoffa o sylw anffodus blaenor o Fôn oedd yn gwrthwynebu cyfieithiadau newydd: 'Os oedd Beibl William Morgan yn ddigon da i'r Apostol Paul mae'n ddigon da i ni!' Byddai'n dda i'r gwrthwynebwyr droi at air olaf y Rhagarweiniad i'r Testament Newydd yn fersiwn 2004: 'Gwir y dywedwyd mai proses ddiderfyn yw'r dasg o gyfieithu'r Ysgrythurau.' Fe'n hatgoffir nad 'yw cyhoeddi argraffiad diwygiedig o gyfieithiad blaenorol o'r Beibl yn beth dieithr. Diwygiwyd cyfieithiad yr Esgob William Morgan, 1588, gan yr Esgob Richard Parry a'r Dr John Davies a'i gyhoeddi ym 1620'. Wrth gyflwyno fersiwn 2004, dywedir: 'Ein hyder yw mai "Beibl i Bawb" fydd hwn.'

Y mae'r Athro Isaac Thomas, ein hawdurdod pennaf ar gyfieithu'r ysgrythurau yn ein hatgoffa yn ei lith ar 'Y Cyfieithiadau', yn *Y Gair ar Gerdded*, gol. R. Geraint Gruffydd, 1988, fod William Morgan wedi 'diwygio'r cyfieithu yn Nhestament Newydd Salesbury, 1567, ac iddo weithredu yn ôl egwyddorion pendant, e.e. Y mae'r ymadrodd cyfarwydd cyfoes yn ddewisach na'r ymadrodd hynafol dieithr.'

Yn ei ysgrif 'Geiriau' yn ei gyfrol *Oni Threngodd Duw*, 1975, dywed Harri Williams, 'nhad yng nghyfraith, mai tasg y cyfieithydd yw 'darganfod y geiriau a fydd yn cyfleu i ni heddiw yr un ystyr ag a gyflewyd gan y geiriau gwreiddiol. Y mae'n rhaid i bob cyfnod wrth ei gyfieithiad ei hun o'r Beibl, oherwydd y mae geiriau'r iaith fyw yn newid yn eu hystyr, a chystrawen yr iaith, a'i phriod-ddulliau yn newid. Y mae angen parhaus am gyfieithiad cyfoes o'r Beibl a mynegiant cyfoes o'r Beibl.'

Rwy'n aml yn defnyddio dwy enghraifft i ddangos fel y mae'r cyfieithiad diwygiedig yn cyfoethogi ystyr yr ysgrythur. Yn Salm y Bugail mae'r geiriau 'y mae ef yn fy adfywio' yn llawer mwy ystyrlon ac yn cyflwyno'r Hebraeg gwreiddiol yn gywirach nag 'Efe a ddychwel fy enaid'. Ac onid yw 'Peth grymus iawn ac effeithiol yw gweddi daer y cyfiawn', yn Iago 5:16, yn rymusach na 'Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn'. Byddai'n dda i bawb ohonom fyfyrio ar emyn godidog Gwilym R. Tilsley (Rhif 201 yn *Caneuon Ffydd*), a luniwyd ym 1988 i ddiolch am Feibl William Morgan ac i ddeisyf am fendith ar Feibl 1988, a'r un diwygiedig, a gweddïo'r pennill olaf yn aml:

Fel y bu ei addewidion<br>
gynt i'n tadau'n hyfryd wledd,<br>
diolch am ei dderbyn eto<br>
yn ein hiaith ar newydd wedd;<br>
aed ei neges eto'n eirias<br>
drwy genhadaerth plant y ffydd,<br>
i drigolion Cymru fydd.

*W J Edwards*

# TAITH DEWI SANT

Mae'n debyg y byddwch i gyd wedi clywed erbyn hyn am Daith Dewi Sant, yr ymgyrch genhadol fydd yn digwydd yn ne-orllewin Cymru yn ystod misoedd Medi a Hydref (os nad ydych, gofynnwch am un o'r taflenni sydd wedi mynd i bob capel, neu ewch i wefan y mudiad: www.walksaintdavid.co.uk), felly af i ddim i fanylu am y digwyddiad ei hun eto fan hyn. Yn hytrach, ar ôl mynychu'r cyfarfod rhagbaratoawl yn Aberystwyth ym mis Chwefror, hoffwn awgrymu pedwar rheswm da pam y dylai pob aelod ei chefnogi.



1. Bydd y cenhadon yn dod AR EIN CAIS NI. Peidiwch â meddwl fod rhywun yn swyddfa *Through Faith Missions* (TFM) yng Nghaergrawnt wedi penderfynu bod paganiaid Cymru angen eu hachub trwy barasiwtio tri chant o ddynion a merched i mewn i Ddyfed. O na. Gwelwyd yr angen yn lleol a gofynnodd gweinidogion ac arweinwyr eglwysi lleol i TFM ystyried cynnal ymgyrch yn yr ardal, ac maent wedi cytuno i ddod eleni.

2. Nid oes agenda cudd gan TFM. Gellwch fynd mor bell â dweud nad oes agenda ganddynt o gwbl, ond i wneud ewyllys Duw. Teimlent mai gennym ni, yr eglwysi lleol, y mae'r syniad gorau o ble mae eu hangen fwyaf. Felly, bydd pwyllgor cydenwadol yn cyfarfod cyn bo hir i drafod ym mha sefyllfaoedd gallwn ni ddefnyddio'r cenhadon yn y ffordd fwyaf effeithiol. Y pwyllgor lleol (gogledd Ceredigion) fydd yn penderfynu a ddylent fynd i ysgolion, cymdeithasau, tafarndai, clybiau ieuenctid, stadau o dai, ayb., a'r pwyllgor fydd yn paratoi amserlen i'r timau ei dilyn bob dydd. Gwahoddir, a disgwylir, cynrychiolydd o bob capel yn yr ofalaeth ar y pwyllgor hwn. Peidiwch â holi ym mis Hydref 'Pam na ddaeth neb atom ni?', os nad oedd neb gennych ar y pwyllgor. Wrth gwrs, gan mai bwriad TFM yw dilyn cyfarwyddyd Iesu a dibynnu ar haelioni pobl leol, bydd angen dangos cefnogaeth ymarferol, bwyd a llety, yn ystod yr ymweliad.

3. Mae rhai pobl wedi mynegi'r teimlad fod angen tîm / timau o siaradwyr Cymraeg. Pawb sy'n meddwl felly, ffurfiwch giw trefnus fan hyn. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn fwy na pharod i gymryd enwau gwirfoddolwyr. Mae TFM yn ymwybodol iawn fod dwy iaith yn bodoli yng Ngheredigion. Yn y cyfarfod rhagbaratoawl, ymbiliodd Jonathan Mortimer, y prif siaradwr, mor daer am siaradwyr Cymraeg i fentro fel cenhadon, fel y gofynnodd merch ddi-Gymraeg yn ddagreuol, bron, 'Dach chi ddim eisiau fi, 'te?' Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf ohonom yn rhy nerfus a swil i fynd o ddrws i ddrws, ond, os felly, mae dyletswydd arnom i gefnogi'r rhai sydd â digon o ffydd a dewrder i weithredu ar ein rhan ni, beth bynnag yw eu hiaith.

4. Nid yw TFM yn rhyw fath o gwlt neu sect sydd am ddwyn ein haelodau ni. Nhw fydd yn hau'r had, ni fydd yn cynaeafu. Beth bynnag fydd y ffrwyth ysbrydol a ddaw i'r ardal, ni'r eglwysi lleol fydd yn elwa, nid TFM.

Teimlaf fod Taith Dewi Sant yn gyfle na ddaw eto am ddegawdau, os byth, a dylem ei gymryd a'i gefnogi. A bydd cyfle i bawb gefnogi mewn rhyw ffordd. Mae TFM yn gweld y daith genhadol fel partneriaeth triphlyg – TFM, y gymuned leol – a Duw; a gall pob un ohonom, beth bynnag yw ein hamgylchiadau, weddïo am lwyddiant y genhadaeth.

Petai rhyw gapel yn dweud, 'Does dim angen dim cenhadwyr arnom ni, rydan ni'n iawn fel yr ydan ni', waeth i chi gloi'r drws, bois, a thaflu'r allwedd i ffwrdd. Mae'ch achos wedi marw eisoes. Mae pob pentref, pob capel a phob unigolyn angen yr Ysbryd Glân. Os yw'r achos yn fach, mae angen cymorth Duw i oroesi. Os yw'r aelodau yn hen, mae angen cymorth Duw i oroesi. Gawn ni groesawu Ei weithwyr i'n bro pan ddônt, a rhoi pob cefnogaeth iddynt.

*John Leeding*
*Rehoboth*

**Canlyniadau ymchwil newydd**

Yn ddiweddar, fe gomisiynodd Mari Fflur, Swyddog Cyfathrebu Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC), ymchwil i agweddau amrywiol grwpiau tuag at yr Eglwys. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda gweinidogion, blaenoriaid, a thri grŵp o aelodau: ieuenctid, rhieni ifanc a phobl ganol oed. Hefyd, cafwyd grwpiau trafod gydag aelodau o'r cyhoedd nad oeddynt yn mynychu eglwys yn rheolaidd. Dyma grynodeb o'r prif themâu a gododd ymysg y sgyrsiau a gafwyd:




**1. Delwedd yr Eglwys**
Ar yr un llaw, pwysleisiwyd bod EBC yn eglwys ofalgar, gyda'r aelodau yn cefnogi'i gilydd. Ond ar y llaw arall, mae'n henffasiwn, yn fiwrocrataidd ac yn canolbwyntio ar adeiladau. Mae'n oedrannus ac yn gyndyn o newid. Yn ôl yr aelodau iau, mae'n anghroesawgar ac mae diffyg technoleg newydd. Mae'n fewnblyg ac yn ddethol, ac yn gyffredinol nid yw'n ddigon amlwg yn y gymuned.

**2. Pwrpas yr Eglwys**
Dywedodd yr aelodau fod pwrpas yr Eglwys yn gyson, sef addoli a lledaenu'r Efengyl. Er nad oedd gan rai ymlyniad cryf â'r enwad, daeth yn amlwg fod yr Eglwys yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl a'u teuluoedd.

**3. Effaith ar y gymuned**
Roedd llawer o enghreifftiau o eglwysi unigol yn ymwneud â'r gymuned, ond nid oedd hyn yn cael effaith ddigonol, yn ôl y rhai a holwyd. Rhestrwyd pob math o ffyrdd o gyfathrebu â'r byd allanol, gyda'r pwyslais ar fod yn rhan o'r gymuned ac ar roi gwybod i bobl fod yr Eglwys yno ar eu cyfer. Awgrymwyd hefyd y dylid estyn allan at bobl wahanol – pobl ifanc, pobl mewn angen.

**4. Newid – mewnol ac allanol – yn hanfodol os yw'r Eglwys i oroesi a thyfu**

Trafodwyd pwysigrwydd newid yr oedfa a'r awyrgylch, er enghraifft drwy ddefnyddio technoleg a cherddoriaeth newydd weithiau neu drwy ddarparu adeilad sy'n bleser bod ynddo. Mae angen newid mewnol hefyd: arweinyddiaeth gryfach a chefnogaeth i eglwysi lleol, yn ogystal â gweithredu ar ganlyniadau'r ymchwil hwn a gofyn i bobl am eu barn yn amlach!


Beth am y bobl tu allan i'r eglwys? Digon ystrydebol oedd eu canfyddiad o 'eglwys'yn gyffredinol – roedd llawer o eiriau'n ymwneud â'r ffydd Gristnogol yn codi, yn ogystal â geiriau negyddol fel 'diflas', 'diffyg dadl', 'PR gwael', 'hen'.

Ond mae'n bosibl mai'r canfyddiad mwyaf arwyddocaol oedd eu bod yn chwilio am berthynas ddiamod â'r eglwys: 'no strings attached ' Y pryder wedyn yw fod eglwysi'n troi'n ganolfannau cymunedol seciwlar a'r aelodau'n teimlo eu bod yn rhoi a rhoi, heb gael unrhyw ymroddiad na ffydd gan y bobl ar y tu allan. Hanfod y ffydd Gristnogol yw cariad diamod, ond gwyddom pa mor anodd yw byw'r egwyddor honno! Felly, oni ddylem allu estyn allan i'r cymunedau o'n cwmpas gan ledaenu'r Efengyl, ond heb golli'r pwyslais ar addoliad?

Bydd copi manwl o'r canlyniadau yn cael ei anfon i bob gweinidog ac eglwys, a gellir ei lawrlwytho o wefan y Cyfundeb (www.ebcpcw.org.uk). Mae'r syniadau a'r gwirioneddau a godwyd gan yr ymchwil yma yn ddi-ri. Ond pe gallem fel Cyfundeb ac eglwysi lleol weithredu yn bendant ac yn llwyddiannus ar ddim ond rhywfaint ohonynt, credaf y byddai'r dyfodol gryn dipyn yn fwy disglair.

(*Crynodeb o erthygl gan Mari Fflur*
*yn* Y Goleuad*, 26 Chwefror 2010*)

## *Newydd o'r Wasg*





### *Wyn Mel: Y Fi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da (Y Lolfa)*

Hunangofiant yr entrepreneur o Dregaron,'tad Mistar Urdd' a sylfaenydd cwmni cysylltiadau cyhoeddus StrataMatrix – sydd hefyd yn aelod ffyddlon yn y Garn


### *Dehongli'r Bregeth (Elfed ap Nefydd Roberts)*

Ugain o fyfyrdodau yn seiliedig ar y Bregeth ar y Mynydd yn Efengyl Mathew




### *Mil a Mwy o Weddïau (Edwin C. Lewis)*

Trysorfa gynhwysfawr o weddïau sy'n cwmpasu dwy fil o flynyddoedd




**_Swyddogion yr Ofalaeth_**

*Cadeirydd*: Vernon Jones, Gaerwen, Bow Street (01970 828344)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 13 Mehefin:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com